# Llythyrau Cyflwyno

Mae nifer o ymgeiswyr yn credu bod llythyr cyflwyno yn gwneud fawr ddim mwy na rhoi gwybod i gyflogwr eu bod yn ceisio am swydd benodol a bod y CV neu'r ffurflen gais yn amgaeëdig. Os yw'r llythyr am lwyddo, rhaid iddo fod yn llawer mwy na hynny. Peidiwch â meddwl y bydd cyflogwr yn cymryd yn ganiataol bod gennych ddiddordeb yn y swydd a'ch bod yn addas ar ei chyfer!

Mae llythyr cyflwyno yn rhan allweddol o'ch cais (yn enwedig os ydych chi'n gwneud cais ar hap) a dylai gyfateb i'r CV fel bod y ddau yn gais cyflawn gyda'i gilydd. Yr unig bryd y gallai'r llythyr cyflwyno fod yn weddol fyr yw pan fydd yn cael ei anfon gyda ffurflen gais sydd wedi rhoi lle i chi fynegi pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd a pham eich bod yn addas ar ei chyfer; hyd yn oed wedyn fe fydd y llythyr yn pwysleisio pa mor frwdfrydig ac addas ydych chi i wneud y swydd.

Os ystyriwch mai'ch CV yw'r ddogfen sy'n nodi'r hyn rydych chi wedi'i wneud gyda'ch bywyd hyd yma, gyda phwyslais ar yr hyn sy'n berthnasol i gyflogwr penodol, yna'r llythyr yw'r ddogfen sy'n *tanlinellu'r* llwyddiannau a'r gweithgareddau perthnasol ac sy'n cysylltu'r hyn a wnaethoch yn y gorffennol â'r swydd yr ydych yn ceisio amdani. O'i ysgrifennu'n dda, mae'r llythyr cyflwyno yn gyfle i argyhoeddi cyflogwr eich bod chi'n gweddu i ofynion y swydd ac yn haeddu cyfweliad.

Fel unrhyw ran o'r cais, gwnewch yn siŵr y gallwch ateb y cwestiynau canlynol cyn i chi ddechrau ysgrifennu—a gwnewch yn siŵr fod pob llythyr wedi'i deilwra at ofynion swydd a chyflogwr penodol.

- Pa fath o waith ydych chi'n ymgeisio amdano mewn gwirionedd?
- Pam fod gennych chi ddiddordeb yn y math hwn o waith?
- Beth sy'n eich gwneud chi'n addas ar gyfer y swydd hon?
- Pam fod gennych chi ddiddordeb yn y cyfle penodol hwn?
- Pam fod gennych chi ddiddordeb yn y sefydliad arbennig hwn?

Nid yw llythyrau cyflwyno o reidrwydd yn anodd i'w hysgrifennu. I'ch helpu, defnyddiwch y templed ar dudalen 3 fel fframwaith gan edrych ar yr enghraifft a roddwyd. Casglwch gopi o'n taflen ar *Geisiadau ar Hap* i weld sut i chwilio am gyfleoedd sydd heb gael eu hysbysebu.

Fel gydag unrhyw gais, cadwch gopi o'ch CV a'ch llythyr cyflwyno ar ôl eu cwblhau er mwyn cyfeirio atynt cyn y cyfweliad, os byddwch yn llwyddiannus.

## ➲ Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

**A ddylwn deipio fy llythyrau cyflwyno neu eu hysgrifennu â llaw?**

Fel arfer bydd llythyrau cyflwyno yn cael eu teipio neu eu prosesu ar gyfrifiadur, ond ysgrifennwch y llythyr â llaw os mai dyna yw dymuniad y cyflogwr. P'un ai yw wedi'i deipio neu wedi'i ysgrifennu â llaw, dylai'r papur fod yr un peth â'ch CV a dylai fod yn blaen, byth â llinellau neu yn batrymog.

**Pa mor hir ddylai fy llythyrau cyflwyno fod?**

Cofiwch na ddylai CV fod yn hirach na dwy dudalen o hyd. Felly ceisiwch gadw eich llythyr at un, neu ddwy, dudalen o hyd. Bydd y rhan fwyaf tua tudalen o hyd, ond fe welwch y bydd llythyr wedi'i ysgrifennu â llaw yn hirach.

**Dywedodd rhywun y dylwn i egluro'r pwyntiau negyddol yn fy nghais yn y llythyr cyflwyno – a yw hyn yn syniad da?**

Fe all eich llythyr cyflwyno fod yn lle da i gyfeirio at unrhyw wendidau yn eich cais – fel graddau gwael neu ddiffyg profiad gwaith – ond gwnewch yn siŵr eich bod yn sgrifennu amdanyn nhw mewn modd cadarnhaol.


© 2017 Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.

**Enghraifft:**

*Prin ddiwrnod cyn fy arholiad Lefel A Daearyddiaeth, cefais ddamwain a torrais fy ngarddwrn. Roeddwn yn benderfynol o beidio â cholli'r arholiad, ond fe gafodd effaith yn sicr ar fy mherfformiad ac roeddwn i'n siomedig iawn â'r canlyniad gradd D. Nid yw, yn fy marn i, yn adlewyrchu fy ngallu yn y pwnc. Felly er nad oes gennyf y 240 pwynt UCAS y mae eich cwmni fel arfer yn eu disgwyl yr wyf, ers hynny, wedi cael canlyniadau academaidd da yn gyson ac rwy'n hyderus y byddaf yn cael 2:1 yn fy ngradd.*

**Neu**

*Fe welwch ar fy CV na allaf gynnig dwy flynedd o brofiad sy'n berthnasol i'r swydd yma, a minnau yn fyfyriwr yn fy mlwyddyn olaf. Credaf, fodd bynnag, bod fy ngwaith gwirfoddol rheolaidd gydag Oxfam wedi rhoi dealltwriaeth i mi o anghenion y trydydd sector, yn enwedig gofynion y sefydliadau hynny sy'n gweithio gyda phlant a phobol ifanc. Mae fy mhrofiad gwaith amrywiol yn y sector adwerthu yn profi fy ngallu i weithio'n effeithiol gydag ystod eang o bobol a hefyd i addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd. Rwy'n hyderus bod gennyf yr ymrwymiad a'r medrau i drosglwyddo'r sgiliau a ddysgais yn y gwahanol amgylchiadau yma i'r swydd ei hun.*

Os ydych chi'n cyfeirio at gamgymeriad rydych chi wedi'i wneud yn y gorffennol, eglurwch beth a ddysgoch o'r camgymeriad hwnnw.

**Enghraifft:**

*Er nad oes gennyf y 210 pwynt UCAS y mae eich cwmni fel arfer yn eu disgwyl, credaf bod hyn yn adlewyrchu anaeddfedrwydd yn fy arddegau hwyr yn hytrach na gallu deallusol. Ar ôl symud i ysgol newydd, roeddwn i'n awyddus i wneud ffrindiau newydd ac rwy'n barod i gyfaddef fy mod wedi rhoi blaenoriaeth i'm bywyd cymdeithasol yn hytrach na'r un academaidd. Rydw i'n dyfaru'n fawr fy amharodrwydd ar y pryd i dderbyn sut y gallai hyn effeithio ar fy nyfodol, ond yn hyderus y bydd fy nghanlyniadau prifysgol hyd yma yn adlewyrchu'r gwersi a ddysgais a'm hymrwymiad i'm gradd ac hefyd i gael gyrfa foddhaus. Fel y gwelwch ar fy CV, mi fyddaf yn dal i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac allgyrsiol, ond yn credu y gallaf nawr ddangos gallu i flaenoriaethu*

# Templed Llythyr Cyflwyno/Llythyr Cais

<Eich cyfeiriad >
<Rhif ffôn>
<Cyfeiriad ebost>

<Enw'r derbynnydd >
<Enw'r swydd>
<Enw'r sefydliad>
<Cyfeiriad>

<Dyddiad>

Annwyl <Dr, Mr, Mrs, Ms, Miss> <Enw teuluol>,
*(Gwnewch eich ymchwil ac osgoi defnyddio 'Syr' neu 'Madam' – ffoniwch y sefydliad os oes yn rhaid cael yr enw. Cofiwch nad yw 'Annwyl Tim Smith' ac 'Annwyl Mr Tim Smith' yn ffurfiau cywir o gyfeirio at rywun.)*

**<Enw'r swydd rydych chi'n ceisio amdani a'r rhif cyfeirnod (os yw'n gymwys)>**

Paragraff 1

Cyflwynwch eich hun yn gryno iawn (e.e. cwrs gradd, blwyddyn)
Nodwch pa swydd rydych chi'n ceisio amdani, a sut y clywsoch am y swydd
Eglurwch pa ddogfennau rydych chi'n eu hamgáu (e.e. CV neu ffurflen gais)

Paragraff 2 (gellir ei rannu dros ddwy baragraff os oes llawer i'w nodi)

Eglurwch pam bod y *math yma o waith* a'r *swydd benodol* hon yn eich denu a sut yr ydych yn gweddu

Tynnwch sylw at unrhyw gymwysterau a/neu brofiadau perthnasol sydd gennych gan ddarparu tystiolaeth o'ch addasrwydd - cyfeiriwch at eich CV os yn briodol
Cyfeiriwch at yr holl feini prawf sydd yn y swydd ddisgrifiad /manyleb person

Paragraff 3

Eglurwch pam bod y *sefydliad penodol* yma yn eich denu
Dangoswch faint rydych chi'n ei wybod am y cwmni, ei ddiwylliant a'i ethos a sut y mae'n berthnasol i'ch amcanion a'ch gobeithion chi – edrychwch ar ei wefan ac ymchwiliwch iddo ar Nexis (http://www.aber.ac.uk/cy/is/elecinfo/eiaz/#N)

Paragraff 4 – cloi yn gadarnhaol, e.e.

Diolchwch i'r cyflogwr am dreulio'i amser yn ystyried eich cais
Soniwch pryd y byddwch chi ar gael ar gyfer y cyfweliad (os yw'n gymwys)
Manteisiwch ar y cyfle, os yn briodol, i yndrin ag unrhyw wendidau yn eich cais (e.e. graddau gwael), ond byddwch yn gadarnhaol

Yr eiddoch yn gywir

*<llofnod>*

<Eich enw>

# Enghraifft o Lythyr Cyflwyno/Llythyr Cais

16 Stryd y Dollborth
Aberystwyth
SY23 4EZ
Ffôn: 01970 123456
Ebost: xyz@cyfeiriadebost.com

Ms Katherine Burne-Jones
Rheolwr Adnoddau Dynol
UK Engineering Ltd
Parc Busnes Llaneirwg
Caerdydd
CF3 2AP

10 Medi 2017

Annwyl Ms Burne-Jones

**Lleoliad Rheolaeth 10 Wythnos i Raddedigion - Cyllid**

Ar ôl gweld eich hysbyseb ar wefan Gwasanaeth Gyrfaoedd Prifysgol Aberystwyth, hoffwn i chi fy ystyried ar gyfer y lleoliad uchod. Ar hyn o bryd, rwyf yn fy ail flwyddyn ar gwrs gradd BA (Anrh) Rheolaeth a Chyllid ac amgaeaf fy CV at eich sylw.

Mae'r cwrs wedi rhoi cyflwyniad llawn i mi ar egwyddorion rheolaeth. Rwyf wedi dod i ddeall cysyniadau dadansoddi cyllid ac felly hefyd y gwaith ymarferol yn ymwneud â chyllid, a'r ffordd y mae cyllid yn bwydo i mewn i agweddau eraill ar fusnes a rheoli, tra fo'r modiwlau a ddewisais (Cyllid Rhyngwladol a Dulliau Meintioli) yn adlewyrchu fy awydd i ddysgu am ddatblygiad systemau cyllidol ym myd cyfnewid arian.

Yn ogystal, rhoddodd fy mhrofiad gwaith gyda Brown and Black gyfle i mi ddysgu ddatblygu dealltwriaeth helaethach o drefniadau gweinyddol ac roeddwn yn falch o'r cyfle i gyfrannu at effeithlonrwydd y swyddfa drwy adolygu system amserlennu'r partneriaid — deallaf fod hwn yn parhau i gael ei ddefnyddio. Datblygodd fy sgiliau gweithio-mewn-tîm wrth chwarae hoci gydag (2il) sgwad y Brifysgol ac, fel y sawl a gafodd ei hethol yn drysorydd y clwb, rwyf wedi bod yn cydweithio'n dda ag Undeb y Myfyrwyr a swyddogion cyllid y brifysgol. Er bod fy aelodaeth o'r Corfflu Hyfforddi Swyddogion yn gofyn am gryn dipyn o fy amser, rwyf wedi dysgu sut mae rheolaeth effeithiol o'm gweithgareddau wedi sicrhau fy mod yn gwneud y gorau o'm hamser gan: lwyddo i ateb holl ofynion fy modiwlau mewn pryd, cael 2:1 ar gyfartaledd yn fy nghwrs hyd yma a chymryd cyfrifoldeb am drefnu taith mynydda y tri chopa ar ran y Corfflu Hyfforddi Swyddogion dros y Flwyddyn Newydd, a fu'n llwyddiant ysgubol.

O ganlyniad i ddatblygu amryw o sgiliau yn sgil fy lleoliad byr gyda chwmni o gyfrifwyr lleol, hoffwn nawr gael profiad masnachol gyda chwmni rhyngwladol. Byddai cael lle gydag UK Engineering Ltd yn cynnig cyfle gwerthfawr a llawn her i mi gydag un o arweinwyr y diwydiant, ac un sy'n cael ei edmygu'n fawr. O ddiddordeb yn arbennig yw'r cyhoeddiad diweddar eich bod ar fin ehangu i'r sector amddiffyn; rwy'n awyddus iawn i ddysgu rhagor am y sialensau ariannol a rheolaethol a fydd yn codi yn sgil y datblygiadau hynny. Hyderaf y gallaf gynnig i chi yr ystod llawn o sgiliau a phrofiadau rwyf wedi eu hennill hyd yn hyn, a fydd yn fy ngalluogi i gyfrannu yn effeithiol i'c sefydliad.

Byddwn yn croesawu'r cyfle i drafod y swydd a'r cais yn fanylach, ac edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir

Sue Thomas (Ms)
(Amg: CV)

## Adnoddau

➲ **Taflenni'r Gwasanaeth Gyrfaoedd**

CV

Ceisiadau ar Hap

## Lleoliad a Manylion Cyswllt

➲ **Gwasanaeth Gyrfaoedd**

Undeb y Myfyrwyr (drws nesaf i Siop yr Undeb)

Ar agor: Dydd Llun - Dydd Iau 9yb — 5yp a Dydd Gwener 9yb - 4.00yp

Ar gau rhwng 1yp a 2yp

Ffôn: 01970 622378

E-bost: careers@aber.ac.uk

## Sesiynau Gyrfaoedd

Mae Ymgynghorwyr profiadol ar gael yn ein sesiynau galw i mewn os oes gennych ymholiad cyflym neu dymunech ein barn ar eich CV. Gallech hefyd drefnu amser am, neu gael eich cyfeirio at, apwyntiadau gyrfaoedd hirach i drafod eich syniadau a'ch cynlluniau mewn mwy o fanylder.

**Ceir sesiynau galw i mewn (tua 15 munud) bob dydd, ar sail y cyntaf i'r felin:**

I drefnu apwyntiad hirach, galwch i weld ein staff cyfeillgar yn y dderbynfa neu rhowch alwad iddynt ar 01970 622378.


© 2017 Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.